# Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2021-22



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru - Adroddiad Blynyddol 2020-21

Croeso i Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n dangos sut rydym wedi bod yn gwthio'r agenda sgiliau a chyflogadwyedd ymlaen dros y 12 mis diwethaf yn unol â'n blaenoriaethau strategol ac drwy ymateb i'r heriau digynsail a ddaeth yn sgil y pandemig.

Wrth inni gyhoeddi'r adroddiad hwn a setlo i fyd ôl-Covid a wynebu newidiadau geo-wleidyddol, argyfwng costau byw, yn ogystal â mwy o frys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, rydym hefyd yn ymwybodol iawn bod y farchnad lafur wedi newid yn sylweddol. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cyflwyno llawer o heriau i gyflogwyr ac unigolion fel ei gilydd wrth i ni addasu i farchnad lafur gystadleuol iawn gyda niferoedd uchel o swyddi gwag, a phrinder staff mewn sectorau allweddol.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi gwneud cynnydd da wrth weithio tuag at flaenoriaethau rhanbarthol, fel y nodir yn ein strategaeth tair blynedd, a helpu i fynd i'r afael â bylchau a phrinder sgiliau.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiwyd yn bennaf ar fonitro effaith COVID-19 i alluogi Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid eraill i ddeall effeithiau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol ac ymateb yn unol â hynny.

Rydym hefyd wedi cynnal ymchwil bwrdd gwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Garant i Pobl Ifanc, wedi lansio Adroddiad ar Sgiliau Gwyrdd, wedi sefydlu dau is-grŵp clwstwr cyflogwyr newydd ac wedi parhau i hyrwyddo prentisiaethau, gan gynnwys cyfleoedd prentisiaeth gradd.

Yn gynyddol, gwelwn rôl graidd y Bartneriaeth yw hysbysu ac ysbrydoli, ar lefel unigolyn ynghylch yr ystod o gyfleoedd cyflogaeth sy'n bodoli, neu a fydd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol, yn ogystal ag ar lefel sefydliadol drwy helpu busnesau i fanteisio ar y darpariaeth datblygu sgiliau o ansawdd sydd ar gael i gefnogi eu hanghenion a'u dyheadau eu hunain.



Yn ystod y flwyddyn hon, gan weithio ar y cyd â phartneriaid, rydym wedi cyflawni nifer o ymgyrchoedd wedi'u hanelu at bobl ifanc a cheiswyr gwaith i'w hysbrydoli a'u hysbysu am y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn ein sectorau allweddol a thwf.

Wrth i ni edrych ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar ddiweddaru ein cynllun sgiliau a chyflogaeth. Byddwn yn nodi'r blaenoriaethau sgiliau a chyflogaeth allweddol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau cysylltiad cryf â blaenoriaethau economaidd rhanbarthol megis prosiectau'r Cynllun Twf. Hefyd, gan weithio'n agos gyda chyflogwyr byddwn yn casglu gwybodaeth am y farchnad lafur i helpu i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar sgiliau digidol, y Gymraeg, cyflogadwyedd a sgiliau net sero.

Mae llawer i'w wneud, ond gyda'n hymagwedd #tîmgogleddcymru gellir cyflawni llawer.



**David Roberts, Cadeirydd - Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru**

# Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Llywodraethu ac Aelodaeth
3. Ein Blaenoriaethau Rhanbarthol
4. Gweithgareddau a Llwyddiannau: Uchafbwyntiau
5. Asesu cynnydd dros y 12 mis diwethaf
   Blaenoriaeth 1
   Blaenoriaeth 2
   Blaenoriaeth 3
6. Cynllun Adfer COVID-19: Ein dull o ran sgiliau a chyflogadwyedd
7. Y 12 Mis Nesaf
8. Cysylltu â'r tîm

# 1. Cyflwyniad

Mae pedwar o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPau) yng Nghymru, yng Ngogledd Cymru, y De-orllewin, Canolbarth Cymru a De-ddwyrain Cymru. Mae pob RSP yn cynhyrchu ac yn dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur, yn ymgysylltu â chyflogwyr lleol ac yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddarpariaeth sgiliau yn sgil mewnbwn dan arweiniad cyflogwyr. Mae'r RSPau yn ffurfio rhan o ddull ehangach Llywodraeth Cymru o ran datblygiad economaidd rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys yr ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu dros yr Economi i gryfhau cynllunio strategol ar lefel ranbarthol a datblygiad Bargen Dwf Gogledd Cymru a'r Bargeinion Dinesig.

Mae Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru yn dwyn ynghyd cyflogwyr lleol, darparwyr sgiliau a rhandaliad allweddol lleol er mwyn deall yn well a datrys anghysondebau o ran sgiliau ar lefel ranbarthol a lleol. Nod gwaith y partneriaethau yw nodi anghenion sgiliau rhanbarthol presennol ac i'r dyfodol, a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yn 2019, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r RSP gael golwg mwy strategol a hirdymor o'r system sgiliau yn y rhanbarth drwy greu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 2019-2022. Nod y cynllun yw sicrhau bod system sgiliau Gogledd Cymru yn gweithio'n galetach ac yn gallach i fodloni gofynion swyddi, nawr ac i'r dyfodol. Lansiodd a chyhoeddodd RSP Gogledd Cymru ei gynllun ym mis Tachwedd 2019, yn dilyn ymgynghoriad helaeth gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid.

Mae pob RSP wedi dechrau cynnal ymchwil helaeth i ddatblygu'r Cynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd 2022-2025 tair blynedd nesaf, a fydd yn cael ei gyhoeddi ddiwedd eleni.

# 2. Llywodraethu ac Aelodaeth

Mae RSP Gogledd Cymru wedi'i integreiddio mewn strwythurau rhanbarthol ac yn cefnogi cyflawniad agenda sgiliau a chyflogadwyedd Gogledd Cymru a rennir ar gyfer Llywodraeth Cymru a Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru ehangach.

Mae gan yr RSP chwech o is-grwpiau/rhwydweithiau sydd yn rhan o'i strwythur gan gynnwys:

Nod yr **is-weithgor Cyflogadwyedd** yw cydgysylltu i wella cydlyniad, ansawdd a natur cost-effeithiol y ddarpariaeth gyflogadwyedd ledled y rhanbarth.

Mae **Rhwydwaith Kickstart Gogledd Cymru** yn canolbwyntio ar ddwyn ynghyd sefydliadau Porth Kickstart gyda chymeradwyaeth DWP sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru i wella cydlyniad, ansawdd a deilliannau darpariaeth Kickstart yn y rhanbarth. Daeth y ddarpariaeth Kickstart i ben ym mis Mawrth 2022.

Nod yr **Is-grŵp Darparwyr Dysgu ar sail Gwaith** yw ymateb i heriau a gyflwynir gan gyflogwyr drwy'r RSP, i sicrhau bod darpariaeth a chyflawniad sgiliau'n bodloni anghenion cyflogwyr yn y rhanbarth.


Nod yr **Is-grŵp Clwstwr Sgiliau Digidol** yw datblygu dull cydweithredol, cydlynol a thargedig o ran heriau sgiliau digidol fel bod gan y rhanbarth weledigaeth glir a chyfres o flaenoriaethau.

Ffurfiodd yr **Is-grŵp Clwstwr Cyflogaeth y Sector Cyhoeddus** newydd ar ddiwedd 2021, a'i nod yw datblygu dull cydweithredol, cydlynol a thargedig o ran diffinio bylchau sgiliau yn y sector cyhoeddus, a'r galw am brentisiaethau yng Ngogledd Cymru.

Ffurfiodd yr **Is-grŵp Clwstwr Cyflogaeth y Sector Adeiladu** newydd ym mis Mawrth 2022, a'i nod yw datblygu dull cydweithredol, cydlynol a thargedig o ran heriau sgiliau, fel bod gan y rhanbarth weledigaeth glir sy'n nodi blaenoriaethau a all fesur cynnydd a llwyddiant.



Niall Waller, Cadeirydd, Gweithgor Cyflogadwyedd



Cath Morris-Roberts, Cadeirydd, Rhwydwaith Porth Kickstart Gogledd Cymru



Paul Bevan, Cadeirydd, Is-grŵp Darparwyr Dysgu ar Sail Gwaith



Pryderi Ap Rhisiart, Cadeirydd, Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sgiliau Digidol



Heather Johnson, Cadeirydd, Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr y Sector Gyhoeddus



Alison Hourihane, Cadeirydd, Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr y Sector Adeiladu


# Strwythyr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

**Cyngor Datblygu Economaidd**
Darparu Cyngor i rhoi cymorth i hysbysu polisiau busnes ac economaidd yng Nghymru

**Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB)**
Mae WESB yn fform cyflogwyr sy'n darparu mewn strategol i herio a siapio polisi sgiliau a chyflogaeth i'r dyfodol

**Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB)**
Mae'r WAAB yn paratoi cyngor ac argymhellion i'r WESB ar faterion prentisiaethau yng Nghymru

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales



**Is Grŵp Cyflogadwyedd**

**Rhwydwaith Kickstart Gogledd Cymru**

**Is-grŵp Darparwyr Dysgu ar Sail Gwaith**

**Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sgiliau Digidol**

**Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr y Sector Gyhoeddus**

**Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr y Sector Adeiladu**

# Aelodaeth

Aelod o'r diwydiant sy'n cadeirio'r bwrdd, gydag aelodaeth o amrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n mynychu fel cynrychiolwyr o'u sectorau diwydiant neu rwydweithiau. Mae gan RSP Gogledd Cymru gynrychiolaeth ar Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB), Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB) a'r Cyngor Datblygu Economaidd (CED).

Mae'r aelodaeth yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys darparwyr cyflogwyr, addysg a hyfforddiant, Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r trydydd sector. Mae'r RSP yn parhau i hyrwyddo ei strwythur a'i aelodaeth gyda rhanddeiliaid ledled y rhanbarth ac yn genedlaethol.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau aelodaeth cyflogwyr a chael mewnbwn gan ein sectorau allweddol a thwf. Rydym wedi croesawu aelodau newydd yn y sectorau canlynol:

- Creadigol a Digidol
- Ynni
- Gweithgynhyrchu

Wrth symud ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau ymhellach ein haelodaeth cyflogwyr wrth inni ddatblygu'r cynllun cyflogaeth a sgiliau nesaf.

Mae rhagor o fanylion a gwybodaeth am Aelodaeth Bwrdd a Chylch Gorchwyl RSP Gogledd Cymru ar gael ar-lein: www.rspnorth.wales



# 3. Ein Blaenoriaethau Rhanbarthol

**BLAENORIAETH 1**

Adeiladu gweithlu'r dyfodol a denu doniau

**BLAENORIAETH 2**

Datblygu sgiliau er mwyn creu Gogledd Cymru gynhwysol

**BLAENORIAETH 3**

Hyrwyddo canfyddiad am yrfaoedd, a llwybrau gyrfa

Mae **tri o flaenoriaethau sgiliau cyffredinol** sy'n sail i'n Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth sydd eu hangen i gefnogi twf y sector yn yr economi. Cafodd y blaenoriaethau eu dwyn ynghyd gan ein sail dystiolaeth helaeth ar anghenion rhanbarthol, adborth o ymgynghoriadau gan ystod eang o gyflogwyr, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol.

**Er gwaethaf yr heriau parhaus dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd Covid-19, nid yw ein blaenoriaethau wedi newid ac maent wedi dod yn bwysicach fyth er mwyn sicrhau adferiad economaidd dan arweiniad sgiliau yn y rhanbarth. Rydym yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu cymorth ar gyfer ein sectorau twf ac allweddol yn y rhanbarth.**

Eleni, rydym wedi gwneud cynnydd drwy gyflawni ar ein cynllun gweithredu o weithgareddau ar gyfer pob un o'r tri o flaenoriaethau.

# 4. Weithgareddau a Llwyddiannau

## *Ein ffocws yn ystod 2021/2022:*

- Cyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun cyflawni ar gyfer bob un o'r 3 blaenoriaeth gyda ffocws penodol ar ddatblygu economi gwyrdd a digideiddio
- Rhoi cymorth broceriaeth i gynorthwyo busnesau ac unigolion yn y rhanbarth
- Helpu i nodi tueddiadau a newidiadau yn ein marchnad lafur o ganlyniad i Covid-19 drwy ein Hadroddiadau Mewnwelediad ar y Farchnad Lafur Covid-19
- Ymgynghori â rhaglenni a phrosiectau ledled y rhanbarth i ddeall y cynnig presennol / y gefnogaeth sydd ar gael ac i gefnogi Llywodraeth Cymru i lywio'r Warant i Bobl Ifanc yn y rhanbarth
- Cynorthwyo ein partneriaid addysg (AB, AU a Dysgu ar sail Gwaith) drwy roi adborth gan gyflogwyr ar heriau sgiliau ac anghenion sgiliau i'r dyfodol, yn enwedig yn sgîl Covid-19
- Pennu dau o is-grwpiau clwstwr cyflogwyr newydd, y Sector Cyhoeddus ac Adeiladu
- Cyorthwyo a chefnogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid AB drwy gymeradwyo'r rhestr Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol, sydd â'r nod o gefnogi unigolion sy'n ennill o dan yr incwm canolrifol, sef £29,534, yn ogystal â'r rhai y mae eu swyddi mewn perygl i uwchsgilio a chael sgiliau newydd er mwyn newid gyrfaoedd a symud ymlaen yn y gweithle. Mae logisteg/gyrru HGV ac economiau gwyrdd wedi cael eu hychwanegu at y rhestr o gymwysterau sydd ar gael
- Ymgyrchoedd a hyrwyddo ein rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod ein dinasyddion a'n busnesau yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw
- Ymgyrchoedd penodol i sector i gefnogi sectorau penodol sy'n wynebu heriau recriwtio a hyrwyddo cyfleoedd gyrfa a llwybrau i mewn i'r sector

# Uchafbwyntiau

Heb os, mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi bod yn ddigynsail, sy'n gofyn am ymateb cyflym i sefyllfa sy'n newid yn gyflym. Mae RSP Gogledd Cymru ac is-grwpiau a phartneriaid cysylltiedig wedi cyflawni llawer o weithgareddau a chamau gweithredu mewn perthynas ag agenda sgiliau a chyflogadwyedd yn y rhanbarth. Dyma ychydig o uchafbwyntiau:

## PSR 2021 - 2022

1. 3 o adroddiadau Covid-19 LMI wedi'u cynhyrchu i lywio cynllunio sgiliau
2. Ymchwil Bwrdd Gwaith ac Adroddiad YPG
3. MOU Trawsfynydd

## Blaenoriaeth 1

1. Sefydlu Grŵp Clwstwr Cyflogaeth y Sector Cyhoeddus a Sector Adeiladu
2. Cyhoeddi Adroddiad Sgiliau Gwyrdd
3. Gwarant Pobl Ifanc

## Blaenoriaeth 2

1. Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol Twristiaeth a Lletygarwch
2. Digwyddiad Eich Gyrfa Eich Dyfodol gyda Gyrfa Cymru a DWP
3. Cyfrannu at ddigwyddiadau amrywiol Gyrfa Cymru ar gyfer disgyblion ysgol

## Blaenoriaeth 3

1. Wedi ail-ffocysu'r Grŵp Darparwyr WBL a phenodi Cadeirydd newydd
2. Ymgyrch Wythnos Prentisiaethau
3. Trafodaeth yn canolbwyntio ar gyflogwyr am y Gradd Prentisiaeth

# Ein ffocws yn ystod 2021/2022:

- Cyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun cyflawni ar gyfer bob un o'r 3 blaenoriaeth gyda ffocws penodol ar ddatblygu economi gwyrdd a digideiddio
- Rhoi cymorth broceriaeth i gynorthwyo busnesau ac unigolion yn y rhanbarth
- Helpu i nodi tueddiadau a newidiadau yn ein marchnad lafur o ganlyniad i Covid-19 drwy ein Hadroddiadau Mewnwelediad ar y Farchnad Lafur Covid-19
- Ymgynghori â rhaglenni a phrosiectau ledled y rhanbarth i ddeall y cynnig presennol / y gefnogaeth sydd ar gael ac i gefnogi Llywodraeth Cymru i lywio'r Warant i Bobl Ifanc yn y rhanbarth
- Cynorthwyo ein partneriaid addysg (AB, AU a Dysgu ar sail Gwaith) drwy roi adborth gan gyflogwyr ar heriau sgiliau ac anghenion sgiliau i'r dyfodol, yn enwedig yn sgîl Covid-19
- Pennu dau o is-grwpiau clwstwr cyflogwyr newydd, y Sector Cyhoeddus ac Adeiladu
- Cymorthwyo a chefnogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid AB drwy gymeradwyo'r rhestr Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol, sydd â'r nod o gefnogi unigolion sy'n ennill o dan yr incwm canolrifol, sef £29,534, yn ogystal â'r rhai y mae eu swyddi mewn perygl i uwchsgilio a chael sgiliau newydd er mwyn newid gyrfaoedd a symud ymlaen yn y gweithle. Mae logisteg/gyrru HGV ac economiau gwyrdd wedi cael eu hychwanegu at y rhestr o gymwysterau sydd ar gael
- Ymgyrchoedd a hyrwyddo ein rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod ein dinasyddion a'n busnesau yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw
- Ymgyrchoedd penodol i sector i gefnogi sectorau penodol sy'n wynebu heriau recriwtio a hyrwyddo cyfleoedd gyrfa a llwybrau i mewn i'r sector

# 5. Asesu Cynnydd dros y 12 Mis Nesaf

## Blaenoriaeth 1 - Adeiladu ein gweithlu i'r dyfodol

Mae'r raddfa gyflym y mae COVID-19 wedi effeithio ar yr economi a'r farchnad lafur wedi bod yn ddigynsail. Ar yr adeg hon y llynedd, roedd y rhan fwyaf ohonom yn dymuno gweld adferiad economaidd gwell erbyn hyn. Ond, mae'n deg dweud fod y byd busnes yn dal i fod yn gymhleth, gyda newidiadau ôl-Brexit, tarfu ar gadwyni cyflenwi ac yn fwy diweddar, y cynnydd mewn prisiau ynni.

Mae diffyg llafur a sgiliau yn dal i fod yn her sylweddol yn y rhanbarth. Yn dilyn llacio'r cyfyngiadau dros yr haf, mae'r economi yng nghanol adferiad penodi cryf gyda chynnydd mawr yn nifer y swyddi gwag. Fodd bynnag, mae pryderon cynyddol am anghysondeb o ran y galw am sgiliau ar gyfer y swyddi gwag, a sgiliau'r rhai sy'n chwilio am swyddi newydd. Mae hyn wedi effeithio ar y rhan fwyaf o sectorau, ond yn enwedig Lletygarwch a Thwristiaeth, Gofal Cymdeithasol, Bwyd a Ffarmio, Adeiladu a Logisteg, sydd oll wedi wynebu heriau mawr.

Mae argaeledd gweithlu sgilgar a chymhellol, a all addasu i fodloni anghenion busnes presennol ac i'r dyfodol yn un o gonglfeini ein Strategaeth, ac felly mae'n hanfodol i'n gallu i wella cynhyrchedd ledled Gogledd Cymru. Mae gan Brexit, gwelliannau technolegol mewn deallusrwydd artiffisial a data mawr, patrymau gwaith mwy amrywiol, a gofynion cymdeithas sy'n heneiddio oll y potensial i effeithio ar yr agenda sgiliau mewn blynyddoedd i ddod. Dyna pam rydym wedi parhau i fod yn ystwyth o ran ein hymateb. I'r perwyl hwnnw, gyda'n partneriaid rydym wedi adolygu a darparu ar weithrediadau ein Strategaeth Cynllun a Chyflogaeth i sicrhau ei pherthnasedd ac aliniad parhaus.



# Beth wnaethon ni?

- **Gwarant Person Ifanc:** Rydym wedi cael ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i'w cefnogi nhw drwy ddechrau ar weithgarwch ymgysylltu i lywio darpariaeth y Warant yn y rhanbarth. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, ac rydym wrthi'n ymgynghori â rhaglenni a phrosiectau ledled y rhanbarth i ddeall yn well y dirwedd bresennol o ran y cynnig/y gefnogaeth sydd ar gael o ran yr addysg bresennol, cyflogaeth, hyfforddiant a chefnogaeth/darpariaeth lles sydd ar gael i bobl ifanc yn lleol ac yn rhanbarthol. Bydd yr ymarfer hwn yn amlygu'r bylchau rhanbarthol o ran y ddarpariaeth/cefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc gan gynnwys y bylchau a grëwyd drwy gau prosiectau amrywiol, megis yr ESF. Bydd yr ymarfer hwn hefyd o gymorth i adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu gyda Rhanddeiliaid a Chyflogwyr dros y misoedd i ddod.
- **MOU Trawsfynydd:** Er mwyn hyrwyddo a chefnogi datblygiad piblinell sgiliau ar gyfer dadgomisiynu niwclear, rydym wedi cytuno i gydweithio â Magnox Ltd a Grŵp Llandrillo Menai i gefnogi'r uchelgais hwn. Nod y drefn gydweithredol hon yw cyflawni ystod o fanteision arfaethedig ar gyfer y rhanbarth a fydd yn cynnwys piblinell sgiliau clir. Bydd hyn yn helpu darparwyr sgiliau/hyfforddiant a'r gadwyn gyflenwi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gofynion sgiliau i'r dyfodol dros y 5-10 mlynedd nesaf, a gweithlu addas at y diben o'r radd flaenaf a all helpu i gyflawni'r genhadaeth i ymdrin yn ddiogel â'r etifeddiaeth niwclear yn y rhanbarth (a thu hwnt).
- **Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI):** Drwy gydol 2021-22, rydym wedi cryfhau ein gallu dadansoddol ac wedi dechrau dadansoddi'n fanwl i ddeall ein tirwedd newidiol a'r problemau heriau a sgiliau sy'n wynebu cyflogwyr ledled ein sectorau allweddol a thwf. Rydym wedi cynhyrchu *tri o adroddiadau LMI Covid-19* dros y flwyddyn ddiwethaf. Diben y ddau adroddiad cyntaf oedd rhannu gwybodaeth gan ein cyflogwyr sy'n galluogi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddeall effaith COVID-19 ar gyflogaeth a sgiliau yn y rhanbarth. Mae'r adroddiad diweddaraf yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer y ddau adroddiad Covid-19 blaenorol. Roedd pob adroddiad a gynhaliwyd y llynedd yn amlinellu effaith Covid-19 ar sgiliau a chyflogaeth dros gyfnod o ddwy flynedd, rhwng 2020 a 2022.
- **Piblinell sgiliau ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf:** Mae trafodaethau wedi parhau o fewn y Rhaglen Cysylltedd Digidol a'r Rhaglen Ynni ar gyfer Bargen Dwf Gogledd Cymru i sicrhau bod gennym biblinell sgiliau a thalentau ar gyfer y swyddi a fydd yn cael eu creu yn y rhanbarth. Bydd y gwaith yn mynd rhagddo dros y 12 mis nesaf. Mae trafodaethau hefyd wedi'u cynnal gyda buddsoddiadau mawr eraill yn yr ardal, megis Cynghrair Gwynt Alltraeth gan fod disgwyl datblygiadau gwynt alltraeth ger arfordir Gogledd Cymru. Bydd sicrhau bod gan bobl ifanc ddiddordeb mewn pynciau STEM yn hanfodol ar gyfer y biblinell sgiliau, ac rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid ar hyn, gan gynnwys STEM Gogledd a Gyrfa Cymru mewn ysgolion.

# Beth wnaethon ni?

- **Sgiliau Digidol**: Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu er mwyn troi'r strategaethau a'r targedau a nodwyd drwy fapio'r cyflenwad sgiliau yn gamau gweithredu. Mae'r Is-grŵp Cyflogwyr Sgiliau Digidol wedi bod yn gweithio ar y cynllun hwn ers y 12 mis diwethaf. Rydym wedi bod yn gweithio ac wedi cefnogi'r Rhaglen Cysylltedd Digidol i sicrhau bod sgiliau wedi'u cynnwys ac yn cael eu hystyried yn Strategaeth Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru. Gwnaethom ni, ar y cyd â M-Sparc a phartneriaid eraill, drefnu a chynnal yr Ŵyl Sgiliau Digidol. Digwyddiad rhanbarthol oedd hwn dros wythnos, oedd yn cynnwys gweithdai, tiwtorialau a sgyrsiau er mwyn addysgu sgiliau digidol. Roedd digwyddiadau ar gyfer pawb, o blant ysgol i athrawon, ac roedd yn wythnos lwyddiannus iawn.
- **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol:** Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r RSP ddefnyddio ein rhwydweithiau cyflogwyr i adnabod galwedigaethau â blaenoriaeth, sy'n dod i'r amlwg neu sy'n lleihau yn 2021. Yna, bydd y wybodaeth hon yn llywio codau newydd Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) ac yn cynorthwyo i flaenoriaethu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y dyfodol.
- **Cwmpasu Prosiect ar gyfer Porth Sgiliau a Chyflogadwyedd Gogledd Cymru ac Interniaeth i Raddedigion:** Rydym wedi cwmpasu Porth Sgiliau a Chyflogadwyedd Gogledd Cymru fel prosiect, a'r nod yw datblygu platfform ar-lein i wella'r mynediad i ddarpariaeth gwasanaethau cymorth sydd ar gael i gyflogwyr ac unigolion, drwy gynnig mynediad rhwydd i randdeiliaid allweddol i'w cefnogi nhw gyda'u hanghenion sgiliau a chyflogadwyedd. Targed y prosiect yw gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth cyflogwyr ac unigolion o swyddi lleol, prentisiaethau, cyrsiau a gwybodaeth am y farchnad lafur.
- **Cwmpasu Prosiect ar gyfer Interniaeth i Raddedigion:** Rydym wedi cwmpasu prosiect interniaeth i raddedigion i gefnogi graddedigion i mewn i swyddi digidol ac i baru cyflogwyr â graddedigion gyda'r gallu i gyflawni prosiectau sgilgar digidol ar lefel uchel gyda'r nod o sicrhau cyflogaeth barhaus.
- **Wedi adolygu a chymeradwyo rhestr o gymwysterau PLA:** Cafodd y rhestr Genedlaethol o gyrsiau PLA ei hadolygu a'i chymeradwyo. Mae Llywodraeth Cymru wedi newid y broses ychydig o ran cymeradwyo'r cwrs PLA i'r dyfodol, fel y bydd colegau'n anfon bidiau am gyrsiau a chymwysterau newydd i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, ac yna bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at RSP er cefnogaeth/sylwadau.
- **Adferiad Economaidd - Prosbectws Sgiliau a Chyflogadwyedd: gweithiodd yr RSP â chynrychiolwyr Uchelgais Gogledd Cymru,** y chwe awdurdod lleol, darparwyr addysgol y DU, Llywodraeth Cymru a'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adferiad economaidd. Nodwyd fod Pobl a Sgiliau yn them allweddol ar gyfer y Prosbectws Adferiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021. Roedd y prosbectws yn amlinellu cyfres o newidiadau polisi a rhaglenni yr oedd angen eu hystyried yn y rhanbarth er mwyn targedu sgiliau a chyflogadwyedd.

# Beth wnaethon ni?

- **Adroddiad Sgiliau Gwyrdd wedi'i gyhoeddi:** Gwnaethom gomisiynu Data Cymru i ysgrifennu Adroddiad Sgiliau Gwyrdd a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Mae gan yr adroddiad safbwynt cenedlaethol, ond mae hefyd yn cynnwys manylion am ranbarthau. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i ddeall swyddi a sgiliau gwrdd, yn ogystal â nodi'r ffynonellau data mawr sydd ar gael i'r cyhoedd, ac yn asesu'r heriau swydi a sgiliau gwyrdd mewn sectorau allweddol yn economi Cymru. Mae gwaith ychwanegol i'w wneud dros y 12 mis nesaf i adnabod darpariaeth lawn y sgiliau gwyrdd yn y rhanbarth mewn AB, AU a phrentisiaethau er mwyn nodi'r bylchau o ran y ddarpariaeth.
- **Gweithio gyda Chymwysterau Cymru -** Cymhwyster Bwrdd Cynghori ar gyfer Teithio a Thwristiaeth: Bu'r RSP yn rhan o Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cymwysterau Cymru i helpu i fwydo i a llywio Adolygiad y Sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo yn 2021/22. Mae hyn wedi cynnwys sicrhau y gallai cyflogwyr o'r rhanbarth leisio barn ar y cymwysterau a llywio darpariaeth i'r dyfodol.
- **Sefydlu Grŵp Clwstwr Cyflogwyr y Sector Cyhoeddus:** Nod cyffredinol y grŵp hwn yw datblygu dull cydweithredol, cydlynol a thargedig i ddiffinio bylchau sgiliau yn y sector cyhoeddus a'r galw am brentisiaethau yng Ngogledd Cymru er mwyn llywio a dylanwadu ein darparwyr rhanbarthol i ymateb â darpariaeth briodol.
- **Sefydlu Grŵp Clwstwr Cyflogwyr y Sector Adeiladu:** Nod cyffredinol y grŵp hwn yw datblygu dull cydweithredol, cydlynol a thargedig o ran heriau sgiliau fel bod gan y rhanbarth weledigaeth glir sy'n nodi blaenoriaethau ac sy'n gallu mesur cynnydd a llwyddiant a llywio a dylanwadu ein darparwyr rhanbarthol i ymateb gyda darpariaeth briodol.
- **Parhau i weithio ar y cyd â Gogledd Cymru Greadigol:** Fel aelod o'r grŵp, rydym wedi parhau i gefnogi'r sector dros y flwyddyn ddiwethaf. Mewn ymateb i ffocws ar y sector hwn mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd RSP, rydym yn gweithio gyda Gogledd Cymru Greadigol i greu cyfres o ffilmiau i bobl ifanc, sy'n arddangos ystod y gyrfaoedd sydd ar gael yn y Diwydiannau Creadigol. Mae'r gwaith hwn yn parhau, a bydd y ffilmiau terfynol ar gael i Lywodraeth Cymru eu defnyddio.
- **Ymgyrch Pob Cam ar y Cyfryngau Cymdeithasol:** Nod yr ymgyrch 'Pob Cam' ar y cyfryngau cymdeithasol oedd amlygu nad oes llwybr anghywir, waeth pa drywydd y mae unigolyn yn ei ddewis o ran addysg neu yrfa, a gallant fod yn llwyddiannus hyd yn oed os nad ydynt yn dilyn y llwybr traddodiadol. Roeddem eisiau hyrwyddo nad yw cynnydd o ran addysg a gyrfa yn gyfyngedig i oedran, ac mae'n iawn newid meddwl! Roedd yr ymgyrch yn hynod lwyddiannus ac ymgysylltodd llawer o bobl o bob rhan o Gymru â'r ymgyrch drwy rannu eu teithiau gyrfa at lwyddiant gan gynnwys rhai o enwogion y diwydiant teledu a cherddoriaeth, fel Elin Fflur.

# Astudiaeth Achos 1: Pob Cam

Cynhaliodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol o'r enw 'Pob Cam'. Ein nod oedd profi nad oes unrhyw lwybrau anghywir, waeth pa drywydd rydych chi'n mynd arno o ran addysg a gyrfa.

Er mai dyma'r tro cyntaf i'r bartneriaeth gynnal ymgyrch o'r fath, cawsom ein llorio gan yr ymateb. Roedd hi'n galonogol iawn gweld faint o unigolion oedd yn fodlon rhannu mewnwelediad ar eu bywydau waith, waeth pa mor hir neu fyr y mae eu gyrfaoedd wedi bod.




Casgliad o luniau o rhai o'r unigolion a gymerodd rhan yn yr ymgyrch i rannu eu straeon, gan gynnwys rhai wynebau enwog megis Owain Tudur Jones a Elin Fflur

Gan rannu ystod o straeon o gefndiroedd amrywiol, roedd yr ymgyrch yn llawn dathliadau o yrfaoedd llwyddiannus a straeon ysbrydoledig gan ein partneriaid gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, Ffederasiwn y Busnesau Bach ac M-SParc. Buom mewn cyswllt hefyd gyda chyflwynwyr 'Heno', Owain Jones ac Elin Fflur.

Mae'r straeon a rannwyd wedi dangos nad yw unrhyw yrfa yn llinol, gyda'r newidiadau gyrfa mwyaf yn deillio o fanteisio ar bob cyfle a gwthio unigolion hyd eithaf eu gallu. Roedd yr ymgyrch 'Pob Cam' yn gyfle gwych i ddwyn ynghyd y straeon hyn gyda'r nod o normaleiddio newid gyrfa neu ddychwelyd i addysg ar unrhyw oed.

Cawsom stori wych gan Sarah Schofield, a wnaeth ddechrau ei thaith yn y byd gwaith yn 'gwerthu donyts' cyn dod yn Gyfarwyddwr 'Adra'. Mae taith Sarah yn dangos waeth ble rydych chi'n dechrau ar eich taith, nid yw'n pennu eich gyrfa yn y pen draw, os byddwch yn dysgu a thyfu o'r cyfleoedd a'r profiadau rydych chi wedi'u cael.

Roedd hi'n wych gweld cymaint o unigolion yn dod ynghyd i eirioli dros fod yn falch o'u llwybrau gyrfa, yn enwedig wrth i'n heconomi wella ar ôl COVID, roedd hi'n deimlad da i allu adlewyrchu ar y gyrfaoedd hyd yma drwy'r ymgyrch 'Pob Cam'.

Ar ôl wythnos lwyddiannus o glywed cymaint o straeon ysbrydoledig, cawsom adborth positif, yn canmol pa mor bwysig yw rhannu ein hanes gwaith i atgoffa unigolion nad oes unrhyw llwybr anghywir, a bod pob cam yn cyfrif tuag at y dyfodol. Rydym yn gobeithio ein bod wedi llwyddo i ysbrydoli unigolion sy'n ansicr o ran pa lwybr yr hoffent fynd arno. Drwy lwc, gallwn roi'r ymgyrch ar waith eto'r flwyddyn nesaf, er mwyn i ni gael bod yn fwy ac yn well!

# Astudiaeth Achos 2: Gŵyl Sgiliau Digidol

**Cynhaliodd sefydliadau sgiliau a gyrfaoedd yng Ngogledd Cymru Ŵyl Sgiliau Digidol am wythnos ym mis Tachwedd i arddangos pa mor bwysig y bydd elfennau Digidol ar gyfer y dyfodol, gyda phob sesiwn yn uwchsgilio, addysgu a rhoi gwybodaeth i'r gynulleidfa.**

Ar y cyd â M-Sparc, Gyrfa Cymru, partneriaid AB ac AU, STEM Gogledd a rhanddeiliaid allweddol eraill, cynhaliodd y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Ŵyl Sgiliau Digidol Gogledd Cymru ar gyfer ysgolion gynradd ac uwchradd, myfyrwyr colegau a phrifysgolion, rhieni ac addysgwyr.

Cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb dros yr wythnos gan gynnwys sesiynau codio, dylunio ar-lein, hacathonau, CAD/CAM, cyngor ar yrfaoedd a mwy, gyda digwyddiadau ledled gogledd Cymru.

"Mae cysylltedd digidol yn hanfodol i lwyddiant Gweledigaeth Twf Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae rhaglen uchelgeisiol o welliannau isadeiledd ar raddfa fawr yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb digidol a chreu'r amodau ble gall busnesau dyfu, arloesi a dod yn gystadleuol. Ond ni fydd isadeiledd ar ei ben ei hun yn cyflawni manteision i gymdeithas, ac mae'n hanfodol bod ein cymunedau, busnesau a gweithlu yn meddu'r sgiliau sydd eu hangen i fanteisio i'r eithaf ar y potensial hwnnw. Mae Bwrdd Rhaglenni Digidol Gogledd Cymru yn croesawu'r cydweithredu gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i fynd i'r afael â'r heriau sgiliau yn ei Strategaeth Cysylltedd Digidol."

Sioned Williams, SRO Rhaglen Cysylltedd Digidol

Denodd un digwyddiad yn M-SParc dros 250 o gyfranogwyr, gydag amrywiaeth o fynychwyr o blant wyth oed yr holl ffordd at fyfyrwyr ôl-raddedig, gan ddarparu gweithdai ardderchog a chyffrous ym meysydd codio, CAD/CAM, Dylunio UX/UI, Datblygu Meddalwedd.

Gwnaeth Tîm Aston Martin F1, Technocamps, STEM Cymru a llawer mwy gefnogi'r digwyddiad drwy gynnal sesiynau ysbrydoledig a rhoi gwybod i unigolion am elfennau digidol a gyrfaoedd yn y gofod digidol.

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi cael y dasg o gamu i'r adwy a datblygu sgiliau digidol lleol drwy'r Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sgiliau Digidol. Mae'r grwp yn dwyn ynghyd cyflogwyr lleol sy'n allweddol o ran helpu i adnabod bylchau sgiliau presennol ac i'r dyfodol yn y rhanbarth mewn swyddi TG, digidol a thechnolegol gwerth uchel. Mae'r grŵp yn blatfform i gyflogwyr leisio barn a phryderon gyda'r nod o fanteisio i'r eithaf ar eu gwybodaeth a'u profiad ledled ystod eang o ddiwydiannau a dod o hyd i ddatrysiadau arloesol i lywio darpariaeth i'r dyfodol i wella talentau'r genhedlaeth nesaf.

Edrychwn ymlaen at weld effaith prosiectau'r Fargen Dwf yn y rhanbath, a fydd yn arwain at wariant cyfalaf sylweddol yng Ngogledd Cymru, gan ddatblygu isadeiledd anhygoel mewn ystod eang o sectorau a meysydd sy'n hanfodol i dwf y rhanbarth. Mae angen swyddi yn y maes digidol ar y rhan fwyaf o'r prosiectau yn y portffolio, ac roedd yr Ŵyl Sgiliau Digidol yn un ymhlith llawer o gamau sy'n cael eu rhoi ar waith yn y rhanbarth i sicrhau bod y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn cael gwybodaeth ac yn cael eu hysbrydoli am y byd digidol, sgiliau digidol a chyfleoedd gyrfa yn y maes digidol.

*"Un o brif amcanion Gogledd Cymru Greadigol yw pontio'r bwlch rhwng addysg a'r sector creadigol yma yng Ngogledd Cymru, a chreu llwybrau fel y gall ein pobl ifanc gael cyfleoedd i weithio a datblygu sgiliau yn un o ddiwydiannau allweddol Cymru. Mae gweithio gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi'n galluogi ni i greu a dadleoli strwythurau sy'n amlygu anghenion cyflogwyr a'r gallu i addysgwyr ateb y galw."*

Garffild Lloyd Lewis, Cadeirydd Gogledd Cymru Greadigol (2017 - 2022)

*"Rwy'n edrych ymlaen at ddechrau ar hyn ac yn falch iawn o fod yn Gadeirydd cynta'r grŵp. Mae hyn yn gyfle gwych i gyflogwyr yng Ngogledd Cymru, sy'n gweithio i'r diwydiant, i drafod heriau o ran bylchau sgiliau a chydweithio i daclo'r problemau hyn a'u datrys ar gyfer y dyfodol. Fel diwydiant, mae'n rhaid inni hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan herio a newid ystrydebau ym maes adeiladu."*

Alison Hourihane, Cadeirydd Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Gogledd Cymru



*"Mae'r RSP wedi bod yn allweddol o ran datblygu dull cydweithredol, cydlynol a thargedig er mwyn diffinio'r bylchau sgiliau presennol ac i'r dyfodol yn y sector cyhoeddus, gyda ffocws penodol ar brentisiaethau. Mae Catherine a'r tîm wedi rhoi llais i'r Sector Cyhoeddus am y tro cyntaf! Fel un o gyflogwyr mwyaf y rhanbarth, rydym yn falch iawn o weld hyn ledled yr holl sector. Rydym eisoes yn gweld canlyniadau, gyda pherthnasoedd gwell gyda darparwyr a rhwydwaith sy'n datblygu rhwng cyflogwyr. Mae gennym ragor i'w wneud, ond mae hyn yn ddechrau da iawn"*

Heather Johnson, Cadeirydd Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru



*"Mae Grŵp Cyflogwyr Digidol yr RSP wedi llywio rhai prosiectau a newidiadau rhanbarthol sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Mae'n llawn barn ac yn fforwm positif ar gyfer newid ym maes Sgiliau Digidol yng Ngogledd Cymru."*

Pryderi Ap Rhisiart, Cadeirydd Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sgiliau Digidol Gogledd Cymru



# Blaenoriaeth 2: Datblygu Sgiliau ar gyfer Gogledd Cymru Gynhwysol

- Mae camau gweithredu Blaenoriaeth 2 wedi cael eu harwain yn bennaf gan yr Is-weithgor Cyflogadwyedd. Gan weithio mewn partneriaeth, mae'r grŵp yn cydnabod yr angen i wella rhagolygon cyflogadwyedd a'r farchnad lafur i'n preswylwyr sydd fwyaf dan anfantais drwy dargedu gwasanaethau cymorth ynghylch y sgiliau craidd, hyfforddiant galwedigaethol a pharatoi ar gyfer swyddi, profiad gwaith, cyngor i geisio am swyddi ac arweiniad gyrfaoedd.
- Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r ffocws wedi bod ar y camau gweithredu allweddol canlynol:
- **Cydlynu'r gefnogaeth sy'n helpu pobl i mewn i waith ac annog cydweithio ac aliniad rhwng darparwyr**
- **Sicrhau bod dod o hyd i gymorth a chefnogaeth mor syml ag sy'n bosibl**
- **Darparu rhagor o ymgysylltiad cydlynol gyda chyflogwyr**
- **Deall y dirwedd cyflogadwyedd yn dilyn dirwyn y prosiect ESF i ben**
- Yn y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweld lefelau nifer y bobl sy'n hawlio'n cynyddu ledled y rhanbarth, yn ogystal â nifer y bobl sy'n cael eu diswyddo o ganlyniad i'r heriau yn deillio o Covid-19. Fodd bynnag, rydym wedi gweld nifer yr hawlwyr credyd cynhwysol yn sefydlogi erbyn diwedd 2021. Mae'r farchnad lafur wedi symud at fod yn farchnad i weithwyr, yn arwain at rai sectorau, megis iechyd a gofal cymdeithasol, twristiaeth a lletygarwch, gweithgynhyrchu bwyd a diod ac eraill yn ei chael hi'n anodd iawn recriwtio a chadw staff.
- Mewn marchnad swyddi heriol a newidiol, mae busnesau yn y rhanbarth yn cydnabod yr angen i gefnogi pobl ifanc sy'n chwilio am swyddi ac yn gyffredinol, mae'r gefnogaeth gan gyflogwyr sydd eisiau cymryd rhan mewn Kickstart wedi bod yn uchel yn y rhanbarth. Mae'r RSP wedi parhau i weithio'n agos â DWP a darparwyr Porth Kickstart dros y flwyddyn er mwyn sicrhau dull cydlynol a phwysleisio blaenoriaethau economaidd rhanbarthol.



# Beth wnaethon ni?

- **Ymgyrch Twristiaeth a Lletygarwch ar y Cyfryngau Cymdeithasol:** Gwnaethom weithio ar y cyd â phartneriaid, DWP, Cymru'n Gweithio, Awdurdodau Lleol, Colegau a Thwristiaeth Gogledd Cymru i gynnal ymgyrch 5 diwrnod ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa gyda'r sector twristiaeth a lletygarwch yng Ngogledd Cymru.
- **Ymgyrch Kickstart ar y Cyfryngau Cymdeithasol:** Ar y cyd â DWP a phorth Kickstart Gogledd Cymru, cynhaliwyd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cyfleoedd Kickstart yn y rhanbarth. Roedd yr ymgyrch yn gyfle i rannu straeon llwyddiant am unigolion sydd wedi ymgysylltu'n flaenorol, neu a oedd ar raglen Kickstart bryd hynny. Roedd ffocws mawr ar arddangos llwybrau cynnydd at gyflogaeth a phrentisiaethau. Cafodd hyn ei gyflawni drwy rannu astudiaethau achos, clipiau ffilmiau a rhannu dyfyniadau byr gan unigolion ar y rhaglen bryd hynny.
- **Digwyddiad Eich Gyrfa Eich Dyfodol:** Ar y cyd â Chymru'n Gweithio a DWP, gwnaethom gynnal ffair yrfaoedd rhithwir rhanbarthol ar gyfer pob unigolyn. Gwahoddwyd cyflogwyr lleol ar draws ein sectorau allweddol a thwf i gymryd rhan yn y digwyddiad a rhannu trosolwg o'r sector a chyfleoedd gyrfa gan gynnwys Swyddi, Prentisiaethau, Addysg a Hyfforddiant a chymorth Cyflogaeth. Roedd llawer o bartneriaid a rhanddeiliaid, a chyflogwyr, yn gallu arddangos eu cynnig ar y platfform yn rhan o'r digwyddiad.
- **Wedi cyfrannu at ddigwyddiadau Rhanddeiliaid amrywiol ar gyfer disgyblion ysgol:** Rydym wedi bod ynghlwm wrth lawer o ddigwyddiadau rhithwir penodol i sector Gyrfa Cymru gyda'r nod o ysbrydoli a rhoi gwybod i ddisgyblion ysgol am gyfleoedd gyrfa ac am y farchnad lafur ranbarthol.
- **Ymgyrch Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar y Cyfryngau Cymdeithasol:** Ar 8 Mawrth, dathlodd y Byd Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, diwrnod i nodi llwyddiannau gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd menywod. Er mwyn nodi'r achlysur, ar y cyd ag Uchelgais Gogledd Cymru, gwnaethom rannu llawer o straeon ysbrydoledig ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, gwnaethom ddathlu penodiad ein cadeirydd grŵp clwstwr cyflogaeth sector adeiladu, Alison Hourihane.



*"Mae'r RSP yn chwarae rhan hanfodol o ran dwyn ynghyd darparwyr cyflogadwyedd o bob rhan o Ogledd Cymru i sicrhau bod y gefnogaeth i'n cleientiaid ar y cyd yn gydlynol ac yn effeithiol. Gyda'n gilydd, gallwn nodi'r bylchau a'r pethau sy'n gorgyffwrdd, a gweithio ar eu datrys. Gyda marchnad lafur dynn yng Ngogledd Cymru, ni allwn fforddio gadael pobl ar ôl, a bydd yr RSP yn helpu i adeiladu'r partneriaethau a'r strategaeth sydd eu hangen."*


Niall Waller, Cadeirydd y Gweithgor Cyflogadwyedd

*"Roedd Gyrfa Cymru yn falch iawn o weithio ar y cyd â Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cynnal digwyddiad "Eich Gyrfa, Eich Dyfodol". Roeddem wrth ein bodd o weld lefel y diddordeb, gyda dros 70 o arddangoswyr o Ogledd Cymru a 400 o fynychwyr yn cymryd rhan yn ein digwyddiad rhithwir.*

*Roedd hi'n wych gweld nid yn unig ceiswyr swyddi yn cael mynediad i wybodaeth ac arweiniad am gyflogaeth, ond hefyd cael rhoi cyfle i gyflogwyr i hyrwyddo eu diwydiant, yn ogystal â swyddi gwag byw, ar adeg pan roedd cefnogaeth wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau mawr yn gyfyngedig oherwydd y pandemig."*

Nikki Lawrence, Prif Weithredwr Gyrfa Cymru





# Astudiaeth Achos - Ymgyrch Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Ym mis Gorffennaf, mewn ymateb i'r cymorth recriwtio brys a oedd ei angen ar y sector Lletygarwch a Thwrisitaeth, gweithiodd y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar y cyd â phartneriaid, DWP, Cymru'n Gweithio, Awdurdodau Lleol, Colegau a Thwristiaeth Gogledd Cymru i gynnal ymgyrch 5 diwrnod ar y cyfryngau cymdeithasol.

Nod yr ymgyrch oedd hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector twristiaeth a lletygarwch yng Ngogledd Cymru. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebion swyddi, Prentisiaethau, KickStart, cyfleoedd hyfforddiant eraill a chyrsiau neu ddigwyddiadau eraill perthnasol a all gefnogi cyfleoedd yn y sector hwn yn y rhanbarth. Roedd yr ymgyrch hefyd yn ceisio hyrwyddo'r neges fod cyfleoedd gyrfa hirdymor yn y sector.

Cyfranogodd y partneriaid mewn llawer o ffyrdd, megis rhannu astudiaethau achos, dyfyniadau a chlipiau ffilmiau drwy eu platfformau cyfryngau cymdeithasol eu hun ac ymgysylltu â chynnwys partneriaid drwy eu platfformau cyfryngau cymdeithasol. Bu DWP yn cynnal oriau sbotolau ar Twitter gan roi ffocws ar gyfleoedd a swyddi ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol yn ystod yr holl ymgyrch.

Roedd yr ymgyrch yn hynod boblogaidd gyda llawer iawn o weithgarwch yn cael ei rannu gyda phawb oedd ynghlwm drwy'r platfformau cyfryngau cymdeithasol, a wnaeth arwain at gynnydd mewn ymgysylltiad gan unigolion oedd yn ystyried gyrfa yn y sector.

*"Mae'n braf iawn gallu pennu perthynas mor gryf a gwerthfawr rhwng Twristiaeth Gogledd Cymru a'r RSP. Yn bendant, yr uchafbwynt oedd yr ymgyrch twristiaeth a lletygarwch ar y cyfryngau cymdeithasol a gafodd ei drefnu a'i gyflawni ym mis Gorffennaf.*

*Bu i hyn amlygu'r ymateb i'r gefnogaeth recriwtio frys oedd ei hangen ar y sector Lletygarwch a Thwristiaeth, ac felly gweithiodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar y cyd â phartneriaid, DWP, Cymru'n Gweithio, Awdurdodau Lleol, Colegau a Thwristiaeth Gogledd Cymru i gynnal ymgyrch 5 diwrnod ar y cyfryngau cymdeithasol. Y nod oedd hyrwyddo'r neges fod cyfleoedd gyrfa hirdymor yn y sector.*



*Rydym yn gwybod fod yr ymgyrch wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ac edrychwn ymlaen at barhau â'r gefnogaeth ar y cyd er budd ein sector."*

Jim Jones, Prif Swyddog Gweithredol Twristiaeth Gogledd Cymru

# Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo canfyddiadau gyrfaoedd, llwybrau a chyfleoedd prentisiaeth

Mae canfyddiadau am y sector, y diffyg dealltwriaeth am lwybrau amrywiol y dysgwyr a chyfleoedd prentisiaeth yn flaenoriaeth allweddol i'r RSP. Mae'r Is-grŵp Darparwyr sy'n cynnwys yr holl ddarparwyr dysgu ar sail gwaith yn y rhanbarth wedi bwrw ymlaen â chamau gweithredu yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn fwy diweddar maent wedi diwygio ffocws y grŵp er mwyn cyflawni ar y meysydd canlynol:

- Rhannu ymarfer, data a thueddiadau i lywio'r RSP a dylanwad cymorth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill
- Ymateb i yrwyr rhanbarthol a thueddiadau economaidd a nodwyd gan yr RSP
- Cefnogi hyrwyddiad prentisiaethau fel llwybr ymysg unigolion a rhanddeiliaid allweddol

Rydym eisiau codi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr a chyflogwyr am y cyfleoedd sgiliau amrywiol a'r llwybrau sydd ar gael yn lleol i rymuso'n well ein gweithlu i ymateb i ofynion cyflogwyr newidiol. Wrth symud ymlaen, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar gyflawni'r camau gweithredu canlynol:

- Parhau i roi gwybod i'r RSP am ddarpariaeth a chynllunio data i gefnogi'r RSP i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill
- Ystyried y goblygiadau o gyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru o ran nifer y bobl sy'n mynd ar brentisiaethau yn y rhanbarth
- Monitro ac ymateb i'r galw am sgiliau yn sgîl Bargen Dwf Gogledd Cymru a phrosiectau sylweddol eraill yn y rhanbarth, gan gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer Dysgu ar sail Gwaith
- Ymateb i'r bylchau sgiliau a'r heriau a ddaw i'r amlwg drwy'r RSP
- Cefnogi unrhyw gynnydd i'r galw am brentisiaethau Lefel Uwch (L3+), gan gynnwys Prentisiaethau Gradd
- Monitro ac ymateb i gyfleoedd ar gyfer Prentisiaethau a Rennir a Phrentisiaethau â Chymorth a Rennir

# Beth wnaethon ni?

- **Rhannu Data:** Sefydlwyd system rhannu data systematig y llynedd am ddysgu ar sail gwaith yn rhanbarthol, a chafodd ei chynnal eleni hefyd. Rydym hefyd yn parhau i weld data'n cael ei rhannu gan ddarparwyr ynghylch nifer y dysgwyr ar sail gwaith sy'n dewis opsiynau dysgu cyfrwng Cymraeg a thrafodaethau gyda Choleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol o ran Covid-19 ar ddysgwyr a dewisiadau cyfrwng Cymraeg.
- **Grŵp Darparwyr Dysgu ar sail Gwaith gyda ffocws newydd, a phenodi Cadeirydd newydd:** Cafodd y Cadeirydd newydd, Paul Bevan, ei benodi tua diwedd 2021. Ers hyn, mae'r grŵp wedi cael ffocws newydd i ymateb i'r heriau a gyflwynodd cyflogwyr drwy'r RSP o ran darpariaeth dysgu ar sail gwaith rhanbarthol ôl-16 a chyflawniad yn y rhanbarth. Bydd y Grŵp yn canolbwyntio ar y cyfeiriad strategol ar gyfer darpariaeth dysgu ar sail gwaith presennol ac i'r dyfodol yn y rhanbarth, gan weithio ar gynllun gweithredu byrdymor i gyflawni ei bwrpas a'i amcanion.
- **Ymgyrch Wythnos Brentisiaethau:** Cafodd Wythnos Brentisiaethau ei dathlu ledled y rhanbarth drwy ein partneriaid-darparwyr. Gwnaethom rannu astudiaethau achos gan ein cyflogwyr a'n prentisiaid, a rhannu negeseuon partneriaid drwy ein platfformau cyfryngau cymdeithasol i amlygu manteision prentisiaethau i unigolion, cyflogwyr a'r economi ehangach.
- **Trafodaeth rhwng cyflogwyr yn canolbwyntio ar Brentisiaeth Gradd:** Gwnaethom hwyluso trafodaeth ar brentisiaeth gradd rhwng darparwyr AU yng Ngogledd Cymru gan gynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a'r Brifysgol Agored. Cafodd y drafodaeth ei chynhyrchu a'i hysbysebu ar Newyddion Busnes Cymru. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y llwybrau prentisiaeth gradd sydd ar gael yn y rhanbarth a'r manteision i gyflogwyr. Cymrodd Cath ran hefyd mewn trafodaeth sain yn rhan o'r ymgyrch, gan hyrwyddo manteision recriwtio prentis.



# Astudiaeth Achos 4: Prentisiaethau Gradd - Hyfforddi'r Genhedlaeth Nesaf

**I ddilyn y gweminar prentisiaeth gradd rithwir llwyddiannus a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020, cydnabyddodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn ogystal â chyflogwyr Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sgiliau Digidol yr RSP, fod angen cynnal digwyddiad tebyg cyn cyfnod derbyn prentisiaid gradd newydd yn yr hydref.**

Ar y cyd â Phrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr a'r Brifysgol Agored, bu i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gymryd rhan mewn trafodaeth wedi'i recordio a gafodd ei darlledu ar Newyddion Busnes Cymru ar 16 Awst. Gwnaethant drafod manteision prentisiaethau gradd gyda chyflogwyr, a'r cynnig yng Ngogledd Cymru.

> ***Pleser oedd gallu cymryd drosodd cadeirydd y grŵp Darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith ac adeiladu ar waith y grŵp drwy ganolbwyntio ar gynyddu niferoedd ac ymwybyddiaeth o brentisiaethau ar draws Gogledd Cymru. Yn benodol, mae'r grŵp wedi bod yn ymgysylltu â'r newidiadau mewn sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau'r dyfodol - boed o ganlyniad i'r farchnad lafur dynn neu'r angen am sgiliau gwyrdd newydd ac esblygol. Drwy'r grŵp mae darparwyr wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ystod eang o opsiynau ar gael i gyflogwyr a phrentisiaid yn y rhanbarth, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i dyfu cyfleoedd seiliedig ar waith trwy lwybrau newydd a chynlluniau prentisiaeth ar y cyd.***
>
> Paul Bevan, Cadeirydd, Is-grŵp Darparwyr Dysgu ar sail Gwaith

Mae'r pandemig wedi cynyddu proffil prentisiaethau ledled y bwrdd yn ogystal ag adfywio'r galw ymysg cyflogwyr i uwchsgilio, ail-sgilio a buddsoddi i weithlu'r dyfodol. Mae cyfleoedd prentisiaeth yn rhan hanfodol o'n hadferiad economaidd ac mae angen cynnal rhagor o ymdrechion cydweithredol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i gyflogwyr drwy raglenni prentisiaeth gradd a ariennir.

Mae gan brentisiaethau ran hanfodol i'w chwarae o ran cefnogi adferiad yr economi a chefnogi'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol o ganlyniad i COVID-19.

Bydd buddsoddi i uwchsgilio ac ail-sgilio staff yn hanfodol i sicrhau bod gan fusnesau'r gallu a'r sgiliau yn eu gweithlu i adfer a thrawsnewid eu busnes, i addasu i farchnadoedd newidiol a gweithredu modelau busnes newydd.

Gall prentisiaethau helpu i gynnig ffordd o gryfhau eu busnes ymhellach i gyflogwyr ac i gael gafael ar hyfforddiant o safon dda i'w helpu i adeiladu piblinell o dalentau sgilgar a chymhellol. Bydd y Rhaglen Brentisiaeth yn parhau i helpu cyflogwyr yn ystod yr adferiad, fel prif yrrwr Cymru ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu.

Nid oes llawer yn gwybod am, nac yn manteisio ar, brentisiaethau gradd sydd ar gael mewn sefydliadau Addysg Uwch, ac fe'u defnyddir gan gyflogwyr ledled Cymru sy'n awyddus i yrru sgiliau lefel uwch a helpu cwmniau i ddenu, recriwtio neu ail-hyfforddi pobl dalentog drwy'r rhaglen Prentisiaethau Gradd.

Mae cwmnïau ym mhob rhan o Ogledd Cymru yn cael eu hannog i weithio gyda Phrifysgolion a Cholegau i ddod â dysgu i'w gweithle naill ai i uwchsgilio eu gweithlu presennol neu ddenu talentau newydd. Yn ôl adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan y Brifysgol Agored:

- Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau a arolygwyd yng Nghymru (71%) wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i weithwyr gyda'r sgiliau cywir dros y 12 mis diwethaf;
- Mae arweinwyr busnesau yng Nghymru wedi gwario £51 miliwn ar staff dros dro yn y flwyddyn ddiwethaf;
- Mae sefydliadau Cymreig wedi gwario dros £51 miliwn ar staffio dros dro i gau bylchau sgiliau dros y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf y ffaith fod un ym mhob pedwar (25%) wedi diswyddo staff er mwyn torri costau yng ngwyneb COVID-19;
- Gyda 71 y cant o sefydliadau'n adrodd am drafferthion o ran dod o hyd i ymgeiswyr gyda'r sgiliau perthnasol, mae arweinwyr busnes Cymru wedi troi at ddatrysiadau drytach ac wedi gorfod buddsoddi i recriwtio (69%) i lenwi diffygion talentau brys;
- O ran penodi, mae 30 y cant o gyflogwyr Cymru yn disgwyl bod angen mwy o reolwyr dros y 12 mis nesaf i lywio heriau pellach;
- Ym mhob agwedd ar hyn, mae'r gwariant ar lenwi bylchau sgiliau yng Nghymru wedi cynyddu gan 42 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf. Ac wrth edrych tua'r dyfodol, er bod 42 y cant o sefydliadau yng Nghymru yn bwriadu dod â staff ffyrlo ar ôl i gynllun y llywodraeth ddod i ben, bydd dros un ym mhob pedwar (27%) yn dibynnu ar benodi gweithwyr dros dro i lenwi'r bwlch, tra bod 15 y cant arall yn bwriadu buddsoddi i awtomeiddio er mwyn lleihau'r costau ymhellach;

Mae prentisiaethau gradd yng Nghymru yn cynnwys cymhwyster gradd faglor integredig yn rhan o ofynion fframwaith prentisiaeth, ac maen nhw'n cynnig cyfleoedd i:

- Unigolion yng Nghymru gyflawni rhaglen ddysgu a hyfforddiant a fydd yn arwain atynt yn cael cymhwyster lefel prentisiaeth a gradd, gan arddangos y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad perthnasol y mae cyflogwyr yng Nghymru yn eu gwerthfawrogi a'u cydnabod;
- Cryfhau llwybrau o brentisiaethau lefel uwch i gymwysterau lefel gradd;
- Bodloni ymhellach anghenion sgiliau Cymru a gwella arloesedd a chynhyrchedd drwy sgilio ac uwchsgilio gweithwyr newydd a phresennol yng Nghymru;
- Lleihau'r broblem sgiliau isel, lle mae cyflenwad sgiliau isel ochr yn ochr â galw isel am sgiliau;
- Gwella amrywiaeth y gweithlu yn y sectorau digidol, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch yng Nghymru;
- Cynyddu cydweithrediad ar draws sectorau addysg yng Nghymru, a lleihau cystadlu dibwys.



*"Mae gweithio gyda'r RSP yng Ngogledd Cymru wedi bod yn wych, maen nhw'n deall yr heriau y mae cyflogwyr yn eu hwynebu a'r effaith y gall graddau prentisiaeth ei chael yng Nghymru. Mae cydweithredu yn y rhanbarth i hyrwyddo'r prentisiaeth gradd ymysg cyflogwyr yn ddull da. Bydd parhau i weithio fel hyn yn cynyddu ein hymwybyddiaeth ymhellach o brentisiaethau gradd fel datrysiad o safon, cyflawnadwy ac ar sail gwaith i gynyddu talent yn y rhanbarth. Mae'r tîm RSP bob amser yn agored i gael syniadau a'n cefnogi ni fel darparwyr prentisiaeth AU yn y rhanbarth."*

Rhys Griffiths - Rheolwr Perthnasoedd Busnes (Cymru), y Brifysgol Agored

# 6. Cynllun Adfer COVID

Ein dull o ran adfer sgiliau a chyflogaeth

Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar unigolion ac aelwydydd, ac ar fyfyrwyr, gweithwyr a chymunedau. I oedolion iau, mae'r heriau'n benodol aciwt; mae graddedigion newydd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleoedd am swyddi, ac efallai bod gan fusnesau lai o gapasiti ar unwaith a thuedd i gyflawni prentisiaethau a gadawyr ysgolion eraill.

Mae gweithwyr hŷn hefyd yn cael eu gorfodi i ail-ystyried eu tybiaethau am waith. Bydd angen i lawer geisio swyddi newydd a gwahanol, a defnyddio eu sgiliau mewn ffyrdd newydd a swyddi gwahanol - ac mae bob un yn arwydd o darfu, pryder ac ansicrwydd. Yn y cyd-destun hwn, mae oedolion gyda llai o sgiliau yn benodol agored i niwed.

Mae ein cyflogwyr a'n busnesau ledled pob sector wedi cael eu heffeithio. Mae graddfa eu hyder o ran recriwtio a buddsoddi yn eu staff (drwy ail-hyfforddiant) yn hanfodol i ddatgloi adferiad.

Mae cyflogwyr mewn sawl sector wedi colli gweithlu ac yn parhau i golli gweithlu oherwydd prisiau cyflogau cystadleuol mewn lleoedd eraill yn y rhanbarth, rhannau eraill o Gymru a dros y ffin. Mae'r hyblygrwydd gweithio o gartref yn galluogi unigolion i chwilio am waith o leoliadau pellach. Mae recriwtio hefyd yn heriol, ac mae rhai busnesau'n ystyried hyn yn rhwystr o ran twf.

**Wrth geisio cyflymu adferiad economaidd, mae ein pobl yn bwysig iawn. Mae angen inni ymateb yn effeithiol. Mae angen i ni baru pobl â chyfleoedd am swyddi, eu grymuso gyda'r sgiliau i ffynnu yn y dyfodol, a rhoi hyder i gyflogwyr i recriwtio a defnyddio'r sgiliau hynny'n dda.**

Mae'r RSP a phartneriaid wedi creu cynllun adferiad, sy'n cynnwys 'gofynion' ariannol a 'gofynion' nad ydynt yn ariannol yn y tymor byr, canolig a hirdymor. Mae'r heriau canlynol wedi cael eu nodi:

- **Pobl Ifanc (dan 25 oed)** a gafodd eu heffeithio gan y pandemig; Cynnydd mewn ffigurau NEET;
- **Oedolion (dros 25 oed):** diwedd ffyrlo, niferoedd cynyddol o achosion o ddiswyddo a diweithdra a'r angen i ail-hyfforddi a llwybrau at gyflogaeth well; Bydd y rhai sydd ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur a'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith ers tro yn profi rhagor o rwystrau; Dadleoli pobl o un sector i'r llall.
- **Ymateb i anghenion sgiliau'r dyfodol:** Angen am sgiliau digidol, sgiliau arweinyddiaeth a rheoli a sgiliau trosglwyddadwy, twf entrepreneuriaeth mewn adferiad gwyrdd

# Cynllun Adfer COVID

Mae llawer o'r camau gweithredu penodol a'r ymyriadau a nodwyd yn ein cynllun gweithredu adferiad sgiliau eisoes ar waith, yn benodol y camau gweithredu hynny sy'n ymwneud â chefnogi adferiad economaidd yn y byrdymor. Mewn llawer o achosion, rydym wedi gallu gwneud cynnydd da o'r dechrau drwy adeiladu ar bartneriaethau presennol a llwyddiannus gydag AB, darparwyr hyfforddiant, DWP a Gyrfa Cymru.

Bydd yr Warant Pobl Ifanc yn sicrhau nad oes 'cenhedlaeth goll' yng Nghymru o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Ei nod yw darparu i bawb dan 25 oed, sy'n byw yng Nghymru, gyda chymorth i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, a chael cymorth i fynd i mewn i waith neu ddod yn hunangyflogedig.

Mae'r warant yn dwyn ynghyd ystod o raglenni a mentrau sydd wedi'u dylunio i ddarparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir i fodloni anghenion pobl ifanc ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i fusnesau ledled Cymru i ymrwymo i'r Warant Pobl Ifanc a helpu i'w gwneud yn llwyddiant drwy gynnig cyfleoedd i bobl ifanc gael profiad neu gymryd eu camau cyntaf at fyd gwaith drwy leoliadau profiad gwaith, sesiynau blasu gwaith, prentisiaethau neu gyflogaeth.

Ers dechrau'r pandemig, mae partneriaid wedi symud yn gyflym i ddarparu ystod gynhwysfawr o gymorth parhaus i gyflogwyr ac unigolion ym mhob rhan o'r rhanbarth, ac mae'r rhain yn parhau i esblygu mewn ymateb i'r sefyllfa economaidd newidiol.

# 7. Y 12 Mis Nesaf - Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2022-2023?

Mae'r camau gweithredu a nodwyd yn ein Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth a'r Cynllun Adferiad Covid-19 yn alinio'n gryf gyda'r meysydd y mae Llywodraeth Cymru yn eu targedu i sicrhau bod sgiliau yn un o bileri craidd adferiad. Yn ystod blwyddyn heriol arall i gyflogwyr a darparwyr addysgol, fel partneriaeth, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y cynllun adferiad a sut y gallwn gynorthwyo i sicrhau bod bylchau sgiliau a heriau'n cael eu bodloni.

Byddwn hefyd:

- Parhau i sicrhau aliniad agos rhwng Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru a newidiadau newydd i'r dechnoleg.
- Byddwn yn parhau i ddarparu dadansoddiad manwl o farchnad lafur a sgiliau Gogledd Cymru, gan alluogi ein darpariaeth sgiliau ac addysg i fodloni neu barhau i fodloni ein hanghenion sgiliau presennol a dyfodol busnesau lleol a phreswylwyr.
- Parhau i gasglu gwybodaeth a fydd yn annog partneriaid i ddatblygu strategaethau sy'n cynyddu'r pwyslais ar efelychu galw gan gyflogwyr am sgiliau lefel uwch, galluogi darparwyr a phartneriaid i gyflwyno/bod yn hyblyg/ymateb gyda'r ddarpariaeth briodol sydd ei hangen.
- Cyflawni ar ein cynllun adferiad sgiliau ar gyfer y rhanbarth.
- Gweithio gyda Bargen Dwf Gogledd Cymru i fapio anghenion sgiliau ledled rhaglenni a datblygu ymhellach ac ail-ffocsyu'r rhaglen sgiliau a chyflogadwyedd yn yr ardal.
- Cefnogi anghenion sgiliau ein sectorau allweddol a thwf, gyda phwyslais penodol ar ddatblygu economi werdd a'r symudiad at Sero Net, yn ogystal â digideiddio.
- Datblygu ein cynllun tair blynedd nesaf ar gyfer 2022-25:
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn inni greu cyfres newydd o Gynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y dair blynedd nesaf. Bydd y cynllun yn adnabod y sgiliau allweddol a blaenoriaethau cyflogaeth y rhanbarth, wedi'u halinio â chynlluniau economaidd rhanbarthol, gan gynnwys y Fargen Dwf Gogledd Cymru. Byddwn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol:

  **Cyflogadwyedd:** Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod darpariaeth o gefnogaeth er mwyn cael mynediad i swyddi a helpu i alinio'r Warant Pobl Ifanc â rhaglenni a fydd yn helpu pobl ddi-waith i gael gwaith.

  Yn benodol, mae gan RSPau rôl ganolog i helpu Llywodraeth Cymru ddarparu ar y weledigaeth ar gyfer Cymru Decach, Cryfach a Gwyrddach ynghylch y 5 maes gweithredu allweddol:

  - Pobl ifanc yn cyflawni eu potensial
  - Taclo anghydraddoldeb economaidd
  - Hyrwyddo Gwaith Teg i bawb
  - Cefnogi pobl gyda chyflwr iechyd hirdymor i weithio
  - Meithrin diwydiant dysgu am oes

# Y 12 Mis Nesaf - Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2022-2023?

- **Sgiliau digidol:** Mae gennym rôl glir i'w chwarae i helpu i gyflawni ynghylch cyflogadwyedd a sgiliau. Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i gasglu gwybodaeth am y farchnad lafur a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau am sgiliau digidol. Mae sgiliau digidol i gyflogwyr digidol, a gofynion sgiliau digidol traws-sector, yn hynod bwysig i adferiad a thwf y rhanbarth. Mae hyn yn benodol i ystod y sgiliau digidol syflaenol y mae modd eu trosglwyddo rhwng sectorau amrywiol, i sgiliau mwy penodol y sector digidol megis dadansoddeg, seiberddiogelwch, gemau ac animeiddio, rhwydweithio ac isadeiledd cwmwl a rhaglennu a datblygu meddalwedd. Mae'r cystadlu am sgiliau digidol lefel uchel yn deillio o gyflogwyr technoleg arbenigol, ochr yn ochr â gofynion sgiliau digidol traws-sector. Mae sgiliau a thechnoleg newydd yn tarfu ac yn herio'n barhaus cyfres sgiliau traddodiadol gweithwyr yn fyd-eang. Mae llawer o heriau i'r rhanbarth, nid yn unig i ddal i fyny â'r cyfredol, ond hefyd i geisio bod yn flaengar o ran y datblygiadau hyn o ran adferiad a thwf.

- **Sgiliau sero net:** Gan adeiladu ar yr Adroddiad Sgiliau Gwyrdd a thrwy ymchwil pellach, byddwch yn adnabod sectorau rhanbarthol allweddol yn yr economi a fydd yn cael eu heffeithio gan y symudiad at Sero Net. Bydd angen adnabod galwedigaethau penodol sydd yn, neu a fydd yn, profi newid a dadansoddi sut fydd angen i'r gweithlu Cymreig sy'n profi'r newid hwnnw addasu, datblygu sgiliau newydd neu ail-addasu sgiliau. Mae gennym ran hanfodol i'w chwarae, gan weithio gyda'n rhwydweithiau cyflogwyr i adnabod yn uniongyrchol ystod y dechnoleg a'r sgiliau sydd eu hangen.

- **Addysg bellach a phrentisiaethau:** Fel partneriaeth, byddwn yn adnabod drwy dystiolaeth gadarn y blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer Addysg Bellach a chyflawniad Prentisiaethau, gan ddefnyddio ffynonellau dan arweiniad gweithwyr. Bydd tystiolaeth yn cynnwys sectorau sydd wedi cael eu heffeithio gan Brexit a/neu Covid-19, yn ogystal â sectorau sydd angen denu talentau a sgiliau penodol i'r rhanbarth, oherwydd prosiect buddsoddi mewnol ar y gweill neu bresennol.

- **Y Gymraeg:** Byddwn yn adeiladu ar waith cynlluniau cyflogaeth a sgiliau blaenorol i adnabod yr angen am sgiliau yn y Gymraeg.


# Cysylltu â'r tîm:



## Sian Lloyd Roberts
Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol



## Catherine Morris-Roberts
Uwch Swyddog Cyflawni Sgiliau



## Buddug Wiliam Owen
Rheolwr Prosiect Sgiliau a Chyflogadwyedd



## Angharad Evans
Rheolwr Prosiect Graddedig
Sgiliau a Chyflogadwyedd




Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership